

# Cynllunio leithyddol: Tueddiadau Rhyngwladol 1993-2018

Colin H. Williams, Caerdydd, Caergrawnt, IAITH



Sori Col, methu bod na,  
ma gen i rhywbeth arall  
mlaen am 16:15 tu faes y  
Senedd, G



Ysgol Llwyncelyn



Ysgol Y Strade

Gyda chaniatâd Mr Davies

Dylanwadau  
ar syniadaeth  
yn yr 20  
ganrif

Saunders Lewis, J.R.Jones a Gwynfor Evans

E.G.Bowen, J. Aitchison, H. Carter, C. Betts

Glyn Williams, Delyth Morris, Colin Baker.

G.E.Jones, D. Elis-Thomas, J.W. Jones

Charles Ferguson, Joshua Fishman, Bernard  
Spolsky



# 1. Annibyniaeth: treftadaeth drefedigaethol

Cyfnod cynnar Cynllunio Ieithyddol yn deillio o brofiad gwladwriaethau newydd wrth iddynt ennill annibyniaeth e.e. India, ( 800 o ieithoedd 22 ohonynt yn swyddogol) Nigeria (520 o ieithoedd), Kenya (44 o ieithoedd), Malaysia (140 o ieithoedd).

Penderfynu ar ieithoedd brodorol a rhyngwladol ar gyfer swyddogaethau arbennig.

Rôl Saesneg, Ffrangeg, Swahili ac yn y blaen yn y systemau addysg newydd ac wrth iddynt ddatblygu yr economi, gweinyddiaeth gyhoeddus, y fyddin a chysylltiadau rhyngwladol newydd.





Cyfnod  
Cynnar

---

Canolbwyntio ar Gynllunio  
Corpws

---

Safoni

---

Geiriaduron

---

Adnoddau Dysgu

## 2. Datblygu cynllunio ieithyddol ar gyfer ieithoedd lleiafrifol

- Adfywiad ieithyddol i achub neu adfer ieithoedd fel y Gymraeg, Y Fasseg.
- Buddsoddiad yn y system addysg, gweinyddiaeth gyhoeddus, y wladwriaeth leol, y cyfryngau.
- Adrannau, byrddau, asiantaethau cynllunio ieithyddol.
- Targeddi prosiectau a dyrannu arian gyhoeddus.
- Rhwydweithio ar lefel Ewropeaidd, EBLUL; FUEN; NPLD.
- Mwy o bwyslais ar iaith nag ar gynllunio!



# Newid Natur y Ddadl (Williams 1994)

Brwydro	Normaleiddio
Diogelu iaith unigryw	Hybu amlieithrwydd
Ideoleg cenedlaetholgar	Plwraliaeth gynhwysol
Dibyniaeth ymylol	Llywodraethu
Iaith fel mater ymrannol	Iaith yn rhan annatod
Pledio arbennig	Cyfleoedd cyfartal
Cyfiawnhad diwylliannol	Rhesymeg economaidd-gymdeithasol
Addysg yn ganolog	Meddylfryd holistaidd
Swyddi sector gyhoeddus	Marchnata sgiliau economaidd
Polisi adweithiol	Cynllunio bwriadus
Hyrwyddo	Rheoleiddio

# Aeddfedrwydd Cynllunio

Cynllunio Statws



```
graph TD; A[Cynllunio Statws] --> B[Dyfeisgarwch]; B --> C[Ymyrraeth]; C --> D[Gosod targedau];
```

Dyfeisgarwch

Ymyrraeth

Gosod targedau

# Tueddiadau Strwythurol

---

Profiad Cymru o Gynllunio leithyddol yn ddyfeisgar, yn gyfoethog, yn arloesi ac yn ddefnyddiol iawn i nifer o wledydd eraill.

---

Neo-Rhydfrydiaeth yn gwanhau'r Wladwriaeth Lês

---

‘Hollowing out of the state and citizenship.’ David Marquand a’i debyg.

---

Goblygiadau gorddibyniaeth ein diwylliant a’n hiaith ar y wladwriaeth leol ac ar nawdd arian gyhoeddus.

---

# Ymarferwyr Dylanwadol

- Neville Alexandra (ANC, De Africa)
  - Jacques Maurais (Conseil de la langue française, Quebec)
  - Pou Temara (Astudiethau Maori, Waikato)
  - Miquel Strubell (DGPL, Catalwnia)
  - Nicholas Gardner (Llywodraeth Gwlad y Basg)
  - Meirion P. Jones (Bwrdd yr Iaith, Cymru)
- 
- Deall y cyd-destun gwleidyddol ac yn bragmataidd.

# Dwyieithrwydd yn Ildio i Amlieithrwydd

---

Goblygiadau hyn ar gyfer ieithoedd llai eu defnydd.

---

Amlieithrwydd weithiau yn gyfystyr a thwf Saesneg e.e. Gwlad y Basg, Slofenia lle mae Ffrangeg ac Almaeneg yn cael eu gollwng o'r cwricwlwm, effaith hyn ar gynnal berthynas glos gyda chymdogion dros y ffin.

---

Disgwrs newydd yn trafod arwyddocâd ieithoedd dŵad, globaleiddio, atgynhyrchu diwylliant yn ogystal â gallu ieithyddol, hunaniaeth hybrid/dinesig.

### 3. Amlieithrwydd fel elfen o gynllunio ieithyddol

- Yr ymateb i symudiadau ymfudo i Ewrop a achoswyd gan donnau o ddatwladeiddio rhyngwladol, rhyfeloedd a thyndra ethnig
- galw o fewn Ewrop am lafur rhad a sgiliau gwerthfawr
- symudiadau ffoaduriaid byd-eang parhaus
- Mae'r disgwrs nawr yn ceisio cyflwyno iaith fel hawl ddynol sylfaenol a dwyieithrwydd, neu amlieithrwydd, fel rhywbeth i'w gwerthfawrogi ac fel adnawdd y dylid ei feithrin.

# Allbynnau! Beth am newid ymddygiad parhaol?

---

Gwerthuso

---

Newid Ymddygiad nid dim ond Agweddau

---

Gwariant

---

Gwellla Cyfleoedd

---

Data a Thystiolaeth Tymor Hir

---

Dylanwadau ar Bolisi Cyhoeddus

| 'Outcome not  
just Output'

Newid  
ymddygiad

Theori  
Nudge

Mindspace

# Profiad Gwledydd Eraill

---

Am genhedlaeth mae Cymru wedi tueddu edrych tuag at Gatalwnia, Y Ffindir, Quebec am syniadau, gwersi, ysbrydoliaeth a cheisio cydweithio gyda'r Alban ac Iwerddon o fewn BIC a fframweithiau eraill.

---

Wedi Brexit pa un sydd yn debycach o fewn genhedlaeth Iwerddon Unedig ynteu Y Deyrnas Unedig?

---

Ond yn fwy ddiweddar mae Gwlad y Basg wedi ei chynnig fel enghraifft gan fudiadau pwyso, academyddion a gwleidyddion, ac felly pa wersi sydd i ni o brofiad Euskadi?



# Sut i reoli llywddiant yn sgil twf aruthrol?

- System Addysg Gwlad y Basg.
- Gwyrth gymdeithas ôl-Franco-Euskera yn iaith normadol o'r Meithrin i Addysg Uwch.
- Cenhedlaeth yn ôl tua 20% yn mynychu'r **Ikastolas**, nawr mwy na 80%, a dim ond 5% yn ysgolion cyfrwng Sbaeneg.
- Hwn o ganlyniad i ddewisiadau rhieni a chynllunio gofalus a blaengar gan y Llywodraeth
- Buddsoddiad enfawr gan lywodraethau ac awdurdodau addysg wrth hyfforddi athrawon, creu adnoddau addysgol a chyrff asesu.

# Ac eto, amheuon, ansicrwydd, gofidion!

- Aseidiadau ffurfiol o wahanol sgiliau a galluoedd ddim yn cyfateb i ddisgwyliadau rhieni ac athrawon.
- Hyn yn peri gofid am fod y llwyddiant ysgubol nawr o dan bwysedd gan gefnogwyr a gwrthwynebwyr fel ei gilydd.
- Rhai hyfforddwyr athrawon yn galw am ddulliau dysgu newydd, eraill yn mynnu gwahaniaethu rhwng iaith gyntaf ac ail iaith yn y dosbarth a gostwng y safonau disgwylidig i bawb.
- Sut i ymdopi â'r ymateb negyddol?

# Nid yw caffael iaith o reidrwydd yn arwain at ddefnydd!

- Ers ddiwedd cyfnod Ffranco mae gwyrth llwyddiant y Fasgeg wedi arwain at ddisgwyliadau afreal.
- Y cyhoedd wedi derbyn propaganda y sefydliadau bod Fasgeg yn ddiogel ac yn gwbl angenrheidiol erbyn heddiw.
- Y broblem sylfaenol yw sut i reoli disgwyliadau.

# Mae cynyddu defnydd o'r Fasgeg yn her enfawr.

- Tybiwyd y byddai cynyddu cyfanswm y siaradwyr drwy'r system addysg, o'r Fasgeg i Oedolion, o fentrau'r Llywodraeth a'r broses o ysgogi actorion yn gymdeithasol, yn trosglwyddo'n awtomatig i ddefnydd cymdeithasol y tu allan i addysg.
- Hefyd wrth ystyried pwysau niferoedd a thrawsnewidiad economaidd-gymdeithasol y gweithlu sy'n gofyn am sgiliau uwch mewn Basgeg, cynigiwyd y byddai Basgeg yn gwbl ddiogel.
- Mae ymchwil gan sefydliadau arbenigol fel ***soziolinguisoka klusterra*** yn cynnig diagnosis, methodoleg ar gyfer gwerthuso a syniadau ar gyfer gwella e.e. **arrue** (dadansoddiad), **berbekin** (hyfedredd llafar), **aldahitz** (hyrwyddo newid iaith ).

Gwers amlwg i  
ni wrth feddwl  
am greu  
miliwn o  
siaradwyr

- Ansawdd yn ogystal â niferoedd.
- Defnydd y tu allan i'r system addysg.
- Ffyrdd newydd o gyfathrebu.
- Cyd-weithio rhwng mudiadau a'r Llywodraeth Ganol a Lleol.
- Yr un her o sut i reoli disgwyliadau.

# Siaradwyr Newydd

---

‘Cynllunwyr ieithyddol anweledig.’

# Deall y cyfyngiadau

- Y Mwyafrif
- Natur ein data a'i defnydd, tystiolaeth yn amrywio
- Sut y ffurfir a gweithredir polisiau iaith, addysg o fewn diwylliant gwleidyddol penodol?

# Rôl a Chyfraniad y Mwyafrif

---

Mae hwn yn fater pwysig oherwydd ei fod yn dangos nad yw polisi iaith swyddogol (dim) ond o fudd i'r 'lleiafrifoedd' yn unig.

---

Deddf Iaith Swyddogol Canada wedi ei eirio er mwyn gosod cyfrifoldeb ar sefydliadau ffederal i annog dinasyddion a grwpiau gwirfoddol i dderbyn a " chydabod " yr ieithoedd swyddogol.

---

Felly, gallwch chi gefnogi'r polisi hyd yn oed os nad ydych yn gwbl ddwyieithog !

---

Polisi 'Iaith Pawb' yn trin y Gymraeg fel nwydd cyhoeddus, hyn yn parhau hyd heddiw.

Martti Ahtisaari  
Arlywydd y Ffindir 1994-2000



# Cyfrifoldeb y Mwyafrif yw Diogelu'r Lleiafrif

---

Roedd 25 o fesurau y gweithgor Ahtisaari (Mawrth 2011) yn argymhell fod Llywodraeth Ffindir yn paratoi cynllun gweithredu polisi iaith ar gyfer 2011-2015.

---

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydlynu mesurau trawsbynciol yn gweithredu rhwymedigaethau hawliau ieithyddol a bennir gan Ddeddf yr Iaith.

---

Llunio Cyfansoddiad a Strategaeth ar gyfer Ieithoedd Cenedlaethol 2012.

---

Arweinyddiaeth Y Prif Weinidog a chefnogaeth Gweinidogion yn hanfodol ar gyfer cynnydd gwleidyddol.

# Arwyddocâd y Mwyafrif


Yn Y Ffindir y Weinyddiaeth Gyllid sy'n gyfrifol am ddarparu atebion gan alluogi awdurdodau lleol i warantu hawliau ieithyddol a chynyddu'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn maes addysg, iechyd, tai ac yn y blaen

Cyrsiau hyfforddiant iaith i weision sifil, gwelliannau yn y cwricwlwm cenedlaethol, ariannu gwaith darlledu cyhoeddus yn Swedeg, sicrhau fod dogfennau cleifion o fewn y system gofal iechyd yn Swedeg hefyd

# Sialensau

- Cydymdreiddiad iaith ac economi
- Cynllunio Rhanbarthol
- Datblygu is-strwythur gynhaliol
  
- Methodologau a dulliau gwerthuso
- Sut i brofi effaith a thraw effaith?

Cynllunio  
oddi uchod  
neu o lawr  
gwlad?




# Y Wedd Holistaidd

- Hawdd ei gymeradwyo fel dull
- Anodd gweithredu
- Ymyrraeth gymdeithasol fel methodoleg e.e. NESTA

# Landscape of Innovation Approaches

where do you play:



# Ymchwil Rhyngwladol

01

Gwir angen ymchwil ar sut orau i ddatrys sgil effaith gwrthdaro ethnig a chreu systemau sefydlog lle mae hawliau'r unigolion a grwpiau yn cael eu haeddiant.


02

Offerynnau rhyngwladol a phara-ddiplomyddiaeth.

03

Rôl CRYCI , UNESCO, Cyngor Ewrop, yr Undeb Ewropeaidd, Y Cenhedloedd Unedig ac ati.

# Lle nesaf?



# Polisi iaith mewn cyfnod o globaleiddio

---

Mae'n rhaid i bolisi iaith Cymru a'r DU ailgyfeirio ei hun i ddiffiniad o iaith sy'n cynnwys adnoddau ieithyddol pobl.

---

Ar ôl Brexit bydd mwy o sylw ar 'leithoedd Gymunedol' fel Urdu, Gujarati, Arabig, ac yn y blaen.

---

Angen i adfer statws a defnyddioldeb leithoedd Modern yn ein system addysg ac wrth ymwneud â'r gyfundrefn rhyngwladol.



# Amseru, pwyslais, cyfeiriad!

- Dyma yn union y sefyllfa yng Nghatalwnia, Gwlad y Basg, Galicia, Slofenia ac yn y blaen.
- Tyndra tair ffordd rhwng diddordebau iaith y mwyafrif, y lleiafrif ac ieithoedd dŵad.
- Ateb rhai yw sicrhau bod y system addysg yn cynnig addysg ffurfiol yn yr iaith frodorol i bawb fel y bont yn gwbl ddwyieithog ac yn amlach na pheidio, amlieithog.
- A ydyw Cymru yn barod i droi o wlad lled ddwyieithog i gymdeithas fwy amlieithog ac os felly pa effaith caiff hwn ar ddyfodol y Gymraeg?

Ymha ffordd  
fydd y  
Gyfundrefn  
Newydd yn:

- Cynyddu defnydd
- Creu siaradwyr newydd
- Datblygu hawliau ieithyddol (yr unigolyn a'r gymuned)
- Sicrhau cysondeb polisi dros orwel hirach
- Lledu cyfrifoldeb ac ymrwymiad y tu hwnt i wleidyddion a gweision sifil
- Cefnogi gweithgaredd rhyngwladol ar faterion hyrwyddo iaith